Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
54/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
29/09/2017

# Gwerthuso HYC

## Dadansoddiad meintiol o ddata lefel disgyblion

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78859-244-4

# Gwerthuso HYC

DADANSODDIAD MEINTIOL O DDATA LEFEL DISGYBLION

**Dan Hardy a Marian Morris**
**SQW**

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Starkey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 0377

joanne.starkey@llyw.cymru

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2017

## Cynnwys

Geirfa 2

1. Rhagarweiniad 3

2. Golwg gyffredinol ar ddata lefel disgyblion 6

3. Dadansoddiad aml-lefel (hierarchaidd) o ddata lefel disgyblion 32

4. Asesu perfformiad ysgolion LlLl 50

Annex A: Atodiad technegol 64

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **HYC** | Her Ysgolion Cymru |
| **LlLl** | Llwybrau Llwyddiant |
| **CA3, CA4** | Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 |
| **CDdGD** | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion |
| **L2C** | Lefel 2 cynhwysol |
| **SPC** | Sgorau Pwyntiau wedi'u Capio |
| **PYDd** | Prydau Ysgol am Ddim |
| **AAA** | Anghenion Addysgol Arbennig |

## Rhagarweiniad

1.1 Mae'r papur hwn yn defnyddio detholiad (2009/10 hyd 2015/16) o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion i asesu cynnydd ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LlLl) o ran gwella deilliannau disgyblion ers cael eu cynnwys yn HYC. Cynhaliwyd y dadansoddiad mewn tair rhan. Yn gyntaf, cynhyrchwyd golwg gyffredinol ddisgrifiadol ar y data, gan ganolbwyntio ar y pedair mlynedd o ddata cyn cyflwyno HYC yn 2014 a chymharu'r rhain â'r blynyddoedd academaidd canlynol (h.y. 2014/2015 a 2015/2016). Yn ail, dilynwyd proses fodelu hierarchaidd (aml-lefel) er mwyn dadansoddi'r prif ffactorau sy'n llunio perfformiad ar lefel y disgybl a'r ysgol. Yn olaf, datblygwyd model rhagweld (gan ddefnyddio technegau econometrig), er mwyn rhagfynegi perfformiad posibl ysgolion LlLl heb ymyriad HYC. Yna, cymharwyd y rhagolygon hyn â'r perfformiad a gofnodwyd yn yr ysgolion LlLl.

1.2 Dadansoddwyd ystod o ddeilliannau disgyblion, gan gynnwys cyrhaeddiad, presenoldeb, a chyfraddau absenoldeb heb ganiatâd. Dadansoddwyd tri mesur cyrhaeddiad: Saesneg, Mathemateg a Lefel 2 Cynhwysol (L2C[1]). Er bod data cyrhaeddiad Cymraeg a Sgorau Pwyntiau wedi'u Capio (SPC) wedi'u cyflwyno yn yr adran ystadegau disgrifiadol, ni chynhaliwyd dadansoddiad hydredol, oherwydd:

- nid oedd digon o ddata cyrhaeddiad Cymraeg ar gael i gynnal dadansoddiad econometrig, gan nad oedd digon o ddisgyblion yn y 39 ysgol LlLl yn astudio'r iaith i ddatblygu modelau deilliannau ar gyfer y pwnc
- mesur deilliant academaidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yw SPC ac nid oes mesur tebyg yn bodoli ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 (CA3) y gellir ei ddefnyddio i lunio cymhariaeth a thracio cynnydd disgyblion[2]. Gan fod y modelau econometrig yn dibynnu ar sgorau cyrhaeddiad disgyblion o'r gorffennol, nid oedd modd cynnal dadansoddiad hydredol â SPC fel deilliant.

[1] Mae hwn yn fesur cyfansawdd o bum TGAU gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Gan mai mesur cyrhaeddiad CA4 yw hwn, a bod ein diddordeb ni mewn cynnydd dros amser, rydym yn defnyddio dirprwy ar gyfer L2C yn CA3, sy'n dynodi a yw disgybl yn cyrraedd y lefel a ddisgwylir mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.

[2] Mae hyn hefyd yn wir am L2, ond, yn yr achos hwn, mae mesur dirprwyol (a ddisgrifiwyd uchod) yn rhoi canlyniadau da. Dyma pam yr ydym yn cyfyngu'r dadansoddiad i gyrhaeddiad L2C.

1.3 Ar gyfer pob mesur cyrhaeddiad, mae'r newidyn deilliant yn ddeuaidd ac yn mesur a yw disgybl wedi cyflawni'r lefel cyrhaeddiad a ddisgwylir mewn Cyfnod Allweddol penodol ai peidio[3].

1.4 Roedd y dadansoddiad o ddeilliannau dysgu, presenoldeb, a chyfraddau absenoldeb heb ganiatâd yn cynnwys ystod o nodweddion lefel disgyblion er mwyn deall i ba raddau y gallai ymyriad HYC fod wedi effeithio ar isboblogaethau penodol ymysg y disgyblion. Roedd yr is-grwpiau hyn yn cynnwys dadansoddi yn ôl rhyw, ethnigrwydd, pwy sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd), a statws Angen Addysgol Arbennig (AAA).

1.5 Yn olaf, ehangwyd y dadansoddiad i ystyried sut yr oedd patrymau deilliannau'r disgyblion yn amrywio ar draws tri gwahanol grŵp o ysgolion, fel y'u diffiniwyd yn Nhabl 1-1. Dewiswyd y grwpiau hyn gan y tîm ymchwil yn seiliedig ar drywydd perfformiad ac ansawdd darpariaeth pob ysgol yn union cyn ymgysylltu â HYC.

**Tabl 1-1: Golwg gyffredinol ar grwpiau ysgolion**

| Grŵp A (8 ysgol) | Grŵp B (16 ysgol) | Grŵp C (14 ysgol) |
|---|---|---|
| Ysgolion lle mae'n ymddangos bod ansawdd darpariaeth **wedi bod yn gwaethygu** cyn ymgysylltu â HYC | Ysgolion lle mae'n ymddangos bod ansawdd darpariaeth **wedi bod yn sefydlog** cyn ymgysylltu â HYC ond, serch hynny, lle ystyriwyd bod angen gwelliant. | Ysgolion lle'r oedd ansawdd darpariaeth **wedi dechrau gwella** cyn ymgysylltu â HYC, ond lle'r oedd angen cymorth ychwanegol i wella'r broses. |

Ffynhonnell: SQW, gweler Carr, Brown a Morris (2017) am ragor o wybodaeth

1.6 Mae gweddill y papur hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn. Mae'r adran ganlynol (**Adran** 2) yn rhoi golwg gyffredinol ar y data a gafwyd o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Mae'r dadansoddiad hwn yn archwilio tueddiadau yn neilliannau disgyblion dros gyfnod estynedig, cyn ac ar ôl cyflwyno HYC, i roi sail i ddadansoddiadau econometrig wedi hynny.

1.7 Mae **Adran** 3 yn profi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â deilliannau disgyblion gan ddefnyddio modelu ystadegol hierarchaidd (aml-lefel). Mae manyleb y model yn cynnwys newidynnau **lefel disgyblion** (rhyw, pwy sy'n gymwys i gael PYDd, statws AAA, cyfradd presenoldeb, ethnigrwydd, cyrhaeddiad blaenorol ac ati) a **lefel ysgolion** (cyfran y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog, prif gyfrwng iaith, ac ati) ac yn defnyddio data o 2009/2010 hyd 2015/2016. Lluniwyd y modelau er mwyn sefydlu, o ddata gweinyddol, y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau disgyblion mewn ysgolion LILI. Roeddent hefyd yn ffordd o ganfod pa grwpiau (yn ôl rhyw, ethnigrwydd, statws PYDd, ac ati) sydd wedi gweld y newidiadau mwyaf i'w

[3] Er enghraifft, byddai newidyn deilliant Mathemateg CA3 yn "1" os yw disgybl wedi cael Lefel 5 neu uwch, ac yn "0" os yw'r disgybl o dan y lefel hon.

perfformiad dros amser, gyda phwyslais ar y cyfnod cyn ac ar ôl cyflwyno HYC.

1.8 Mae'r adran olaf (**Adran** 4) yn rhoi tystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y mae deilliannau lefel ysgolion wedi newid (ac a yw'r newidiadau hyn yn gadarnhaol ynteu'n negyddol), ers cyflwyno HYC yn 2013/2014. Un her bwysig i werthuso HYC oedd nad oedd senario gwrthffeithiol i fesur ei llwyddiant yn ei erbyn. Roedd natur HYC, yn ogystal â'r casgliad ehangach o bolisïau i dargedu addysg yng Nghymru, yn golygu nad oedd grŵp cymharu dilys o ysgolion ar gael i'w ddefnyddio i gynnal unrhyw brofion i chwilio am dystiolaeth o gydgyfeirio, neu fel arall. Felly, defnyddiwyd dull 'arbrofol' gan ddefnyddio model rhagweld i ddatblygu senario gwrthffeithiol 'synthetig'.

1.9 Amcan y dull oedd rhagfynegi sut y byddai pob ysgol wedi perfformio ym mhob blwyddyn ar ôl cyflwyno HYC *pe na bai'r ymyriad wedi digwydd*. Archwiliwyd amrywiaeth o fodelau rhagweld i gymharu eu heffeithiolrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys amcanestyniadau syml gan ddefnyddio data cyrhaeddiad cyfres amser a rhagolygon 'amodol' mwy cymhleth gan ddefnyddio data hysbys am ddisgyblion fel sail i wneud rhagfynegiadau (gweler **Adran 4**).

1.10 Yna, defnyddiwyd allbynnau'r modelau hyn i gymharu'r perfformiad a gofnodwyd ers cyflwyno HYC. Mae'n bwysig pwysleisio natur arbrofol y dull hwn, sy'n golygu, oherwydd bod data cyrhaeddiad ar lefel ysgolion yn anwadal, bod rhaid talu sylw arbennig i'r arwyddocâd ystadegol a'r cyfyngau hyder a gyflwynir o gwmpas unrhyw ganlyniadau.

## Golwg gyffredinol ar ddata lefel disgyblion

2.1 Diben yr adran hon yw rhoi golwg gyffredinol ar y data lefel disgyblion a chyflwyno tueddiadau bras (dros amser ac yn ôl grwpiau cohort) o ran cyrhaeddiad, presenoldeb ac absenoldeb. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y blynyddoedd cyn ac ar ôl HYC i ddeall i ba raddau y gellid gweld gwelliannau i ganlyniadau lefel disgyblion. Mae'n bwysig nodi, oherwydd natur yr ymyriad (a oedd yn canolbwyntio ar wella ysgolion), bod lefel y 'driniaeth' i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau o 2014/2015 ymlaen (blwyddyn cyflwyno HYC) yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, ni fyddai disgybl a safodd arholiad TGAU (CA4) ym mlwyddyn academaidd 2014/2015 wedi cael llawer o brofiad o newid cysylltiedig â HYC mewn ysgolion. Byddai disgybl a safodd arholiad CA4 ym mlwyddyn academaidd 2015/2016, fodd bynnag, wedi bod mewn ysgol â chymorth HYC am y rhan fwyaf o'i astudiaethau CA4 (Blwyddyn 10 ac 11). Gan fod ysgolion wedi canolbwyntio ar wahanol agweddau ar wella'r ysgol[4], nid oes dim o'r dadansoddiadau sy'n dilyn yn gwahaniaethu yn ôl pa mor ddwys oedd y 'driniaeth'. Yn olaf, fel rhan o'r broses o baratoi'r data, ac i wneud y dadansoddi'n symlach, dim ond disgyblion a gwblhaodd asesiadau gan athrawon a/neu arholiadau cyhoeddus y Cyfnodau Allweddol yn y cyfyngau amser disgwyliedig sydd wedi'u cynnwys yn y set ddata i'w harchwilio (tair blynedd rhwng CA2 a CA3, dwy flynedd rhwng CA3 a CA4)[5].

### Strwythur y data

2.2 Mae'r detholiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys 78,966 o ddisgyblion unigryw wedi'u cofrestru yn y 39 o ysgolion sy'n ymwneud â HYC. Mae'r data'n ymdrin â'r cyfnod 2006/2007 hyd 2015/2016, fel a gyflwynir yn Nhabl 2-1 (mae'r rhesi wedi'u cysgodi'n dangos blynyddoedd yr ymyriad). Mae’r tabl wedi'i strwythuro yn ôl blwyddyn (rhesi) a Chyfnod Allweddol (colofnau).

---

[4] Gweler Carr, C, Brown S a Morris M, 2017

[5] O ganlyniad, cafodd 88 o ddisgyblion (a oedd naill ai wedi sefyll arholiadau cyhoeddus flwyddyn yn gynnar neu heb sefyll eu TGAU gyda'u cohort) eu tynnu o'r set ddata.

**Tabl 2-1: Niferoedd disgyblion yn ôl blwyddyn academaidd a Chyfnod Allweddol**

| Statws HYC | Blwyddyn | CA2 | CA3 | CA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn yr ymyriad** | **2006/07** | 6,574 | 6,974 | 7,138 | 20,686 |
| | **2007/08** | 6,869 | 6,778 | 7,217 | 20,864 |
| | **2008/09** | 6,391 | 6,664 | 7,167 | 20,222 |
| | **2009/10** | 5,983 | 6,795 | 6,929 | 19,707 |
| | **2010/11** | 5,605 | 7,019 | 6,751 | 19,375 |
| | **2011/12** | 5,630 | 6,530 | 6,909 | 19,069 |
| | **2012/13** | 5,168 | 6,110 | 7,113 | 18,391 |
| | **2013/14** | | 5,741 | 6,637 | 12,378 |
| **Ar ôl yr ymyriad** | **2014/15** | | 5,787 | 6,208 | 11,995 |
| | **2015/16** | | 5,314 | 5,831 | 11,145 |
| | **Cyfanswm** | **42,220** | **63,712** | **67,900** | **173,832** |

Ffynhonnell: SQW

2.3 Mae Tabl 2-2 yn dangos strwythur y data yn ôl cohort (colofnau) a blynyddoedd (rhesi), gan nodi ym mha flwyddyn y bu i gohort penodol gwblhau Cyfnod Allweddol penodol. Mae blynyddoedd yr ymyriad, unwaith eto, wedi'u tywyllu. O ran pa mor ddwys oedd y gefnogaeth, mae'r tabl yn dangos sut y byddai Cohortau 11 a 13 (dwy flynedd o gefnogaeth HYC, ar ôl CA3) wedi profi mwy o ymyriadau LILI na Chohort 10 (un flwyddyn ar ôl CA3), a Chohort 12 (un flwyddyn cyn CA3). Mae'r amlygu coch yn dangos y detholiadau data a ddefnyddir yn y model aml-lefel a'r model rhagweld.

**Tabl 2-2: Strwythur y data yn ôl cohort, blwyddyn a Chyfnod Allweddol**

| Carfan | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2006/07 | CA4 | | CA3 | | | CA2 | | | | | | |
| 2007/08 | | CA4 | | CA3 | | | CA2 | | | | | |
| 2008/09 | | | CA4 | | CA3 | | | CA2 | | | | |
| 2009/10 | | | | CA4 | | CA3 | | | CA2 | | | |
| 2010/11 | | | | | CA4 | | CA3 | | | CA2 | | |
| 2011/12 | | | | | | CA4 | | CA3 | | | CA2 | |
| 2012/13 | | | | | | | CA4 | | CA3 | | | CA2 |
| 2013/14 | | | | | | | | CA4 | | CA3 | | |
| 2014/15 | | | | | | | | | CA4 | | CA3 | |
| 2015/16 | | | | | | | | | | CA4 | | CA3 |

Ffynhonnell: SQW

**Grwpiau Ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion**

2.4 Mae'r dadansoddiad yn adolygu perfformiad cyffredinol ysgolion LILI ar draws tri grŵp (Grwpiau A, B ac C fel a amlinellir yn Nhabl 1-1 uchod). Cyn inni edrych ar berfformiad y grwpiau hyn o ysgolion ar draws ystod o fesurau deilliannau, sefydlwyd yn gyntaf sut yr oeddent yn wahanol o ran strwythur economaidd-gymdeithasol eu cohort, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, lefelau amddifadedd, pwy sy'n gymwys i gael PYDd, statws AAA, a chyfansoddiad ethnig. Mae'r data a gyflwynwyd ar gyfer ysgolion yn Grwpiau A, B ac C yn seiliedig ar gyfartaledd yr holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11) dros ddau gyfnod, 2010/11-2013/14 (**cyn HYC**) a 2014/15-2015/16 (**ar ôl HYC**).

2.5 Fel y mae Tabl 2-3 yn ei ddangos, roedd ysgolion Grŵp B yn tueddu, ar gyfartaledd, i fod â niferoedd ychydig bach yn llai o ddisgyblion naill ai'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a llai o ddisgyblion yn gymwys i gael PYDd, neu â statws AAA, o'u cymharu ag ysgolion Grŵp A neu Grŵp C. Roedd y rhywiau'n tueddu i fod ychydig bach yn fwy cydradd yn ysgolion Grŵp C nag yn ysgolion y ddau grŵp arall.

**Tabl 2-3: Nodweddion ysgolion yn ôl Grŵp (cyfartaledd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11), cyn ac ar ôl HYC**

| Cyfnod Allweddol | Grŵp | % benyw | % byw mewn ardaloedd difreintiedig | % cymwys i gael PYDd | % Gweithredu AAA (A Mwy) | % Datganiad AAA | % ddim yn wyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn HYC (2010/2011-2013/14)** | **A** | 42% | 30% | 26% | 20% | 4% | 5% |
| | **B** | 48% | 18% | 21% | 19% | 3% | 4% |
| | **C** | 49% | 21% | 22% | 21% | 3% | 6% |
| **Ar ôl HYC (2014/15-2015/16)** | **A** | 42% | 29% | 27% | 25% | 4% | 6% |
| | **B** | 48% | 18% | 23% | 24% | 3% | 4% |
| | **C** | 49% | 22% | 24% | 24% | 3% | 7% |

Ffynhonnell: SQW

*Canlyniadau Dysgu*

2.6 Y cam cyntaf oedd ystyried pa ddeilliannau dysgu i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Nhabl 2-4. Maent yn cynnwys Saesneg a Mathemateg o CA2 i CA4, ond yn eithrio Cymraeg (fel y nodwyd uchod) oherwydd nifer annigonol o arsylwadau. Hefyd, dadansoddwyd y mesur Lefel 2 Cynhwysol (L2C) mwy cynhwysfawr. Gan nad oes cymharydd uniongyrchol yn bodoli ar gyfer L2C yn CA3, crëwyd mesur dirprwyol syml er mwyn archwilio cynnydd o CA3 i CA4. Mae'r tabl canlynol yn dangos mwy o fanylion (Tabl 2-4).

**Tabl 2-4: Crynodeb o ddeilliannau dysgu ym mhob Cyfnod Allweddol**

| | CA2 | CA3 | CA4 |
|---|---|---|---|
| **Saesneg a Mathemateg** | Lefel 4 | Lefel 5 | Gradd C TGAU |
| **Lefel 2 Cynhwysol (L2C)** | - | Wedi cyflawni Lefel 5 mewn Saesneg ac mewn Mathemateg (mesur dirprwyol) | 5 TGAU gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. |

Ffynhonnell: SQW

2.7 Mae'r prif ddata yn Nhabl 2-5, Tabl 2-6 a Thabl 2-7 yn rhoi gwybodaeth am bob un o'r mesurau deilliannau allweddol mewn ysgolion LILI dros y cyfnod 2010/11 hyd 2015/2016. Yn ogystal â'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, cynhwysir cyfartaleddau'r cyfnodau cyn yr ymyriad (2010/11 hyd 2013/14) ac ar ôl yr ymyriad (2014/15 hyd 2015/16) hefyd.

2.8 Hefyd, darparwyd cyfartaledd Cymru gyfan at ddibenion cymharu ar gyfer pob deilliant. **Mae'n bwysig nodi ym mhob achos bod cyfartaledd Cymru yn cyfeirio at bob disgybl ym mhob ysgol yng Nghymru.** Er y byddai'n well

darparu cyfartaledd Cymru mwy graenus ar gyfer pob grŵp penodol a ddadansoddwyd gennym (er enghraifft, cymwys i gael PYDd, disgyblion â statws AAA, ac ati), nid oedd data is-grwpiau cyflawn (ar lefel disgyblion) ar gyfer holl ysgolion Cymru ar gael i'r tîm ar adeg y dadansoddiad. Felly, os ydym yn cymharu disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd mewn ysgolion LlLl â chyfartaledd Cymru, er enghraifft, nid ydym yn cymharu'r grŵp hwn â'r holl ddisgyblion PYDd yng Nghymru, ond â'r holl ddisgyblion yng Nghymru.

2.9 Yng ngweddill yr adran hon, darperir golwg gyffredinol ddisgrifiadol fanwl ar ddata deilliannau dysgu (Saesneg, Mathemateg a L2C), presenoldeb ac absenoldeb heb ganiatâd. Mae’n bwysig nodi mai gwahaniaethau disgrifiadol a drafodir yn yr adran hon; nid ydynt yn seiliedig ar unrhyw brofion ystadegol na dadansoddiadau o amrywiad. Cedwir cymariaethau ystadegol o'r fath nes yr adrannau canlynol sy'n defnyddio modelu hierarchaidd ac econometrig.

**Tabl 2-5: Deilliannau Mathemateg a Saesneg CA3 a CA4 mewn ysgolion LlLl ac yn holl ysgolion Cymru o 2010/11 hyd 2015/16**

| | | Saesneg | | | | Mathemateg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA3 | | CA4 | | CA3 | | CA4 | |
| | | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru |
| **2010/11** | gwerth | 69% | 76% | 53% | 63% | 73% | 78% | 46% | 57% |
| | N | 6,885 | - | 6,115 | - | 6,885 | - | 6,112 | - |
| **2011/12** | gwerth | 73% | 79% | 55% | 62% | 77% | 81% | 48% | 58% |
| | N | 6,406 | - | 6,273 | - | 6,406 | - | 6,331 | - |
| **2012/13** | gwerth | 78% | 83% | 53% | 63% | 81% | 84% | 49% | 60% |
| | N | 5,989 | - | 6,552 | - | 5,989 | - | 6,656 | - |
| **2013/14** | gwerth | 82% | 86% | 59% | 66% | 84% | 87% | 54% | 62% |
| | N | 5,630 | - | 6,267 | - | 5,630 | - | 6,259 | - |
| **2014/15** | gwerth | 83% | 88% | 61% | 69% | 86% | 89% | 56% | 64% |
| | N | 5,701 | - | 5,898 | - | 5,701 | - | 5,902 | - |
| **2015/16** | gwerth | 86% | 89% | 63% | 69% | 88% | 90% | 61% | 67% |
| | N | 5,220 | - | 5,604 | - | 5,220 | - | 5,620 | - |

Ffynhonnell: SQW a StatsCymru

**Tabl 2-6: Deilliannau Cymraeg, L2C a SPC CA3 a CA4 mewn ysgolion LlLl ac yn holl ysgolion Cymru o 2010/11 hyd 2015/16**

| | | Cymraeg | | | | L2C | | Sgôr Pwyntiau wedi'u Capio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA4 | | CA4 | | CA3 | | CA4 | |
| | | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru | LlLl | Cymru |
| 2010/11 | gwerth | 55% | 81% | 60% | 75% | 35% | 50% | 286 | 312 |
| | N | 6,748 | - | 109 | - | 6,640 | - | 6,640 | - |
| 2011/12 | gwerth | 63% | 84% | 73% | 74% | 37% | 51% | 301 | 324 |
| | N | 6,246 | - | 132 | - | 6,787 | - | 6,787 | - |
| 2012/13 | gwerth | 68% | 88% | 53% | 74% | 38% | 53% | 307 | 333 |
| | N | 5,860 | - | 110 | - | 6,984 | - | 6,984 | - |
| 2013/14 | gwerth | 74% | 90% | 56% | 74% | 45% | 55% | 323 | 341 |
| | N | 5,514 | - | 142 | - | 6,503 | - | 6,503 | - |
| **2014/15** | gwerth | 77% | 91% | 55% | 75% | 48% | 58% | 329 | 344 |
| | N | 5,548 | - | 111 | - | 6,079 | - | 6,079 | - |
| **2015/16** | gwerth | 78% | 92% | 68% | 75% | 52% | 60% | 334 | 345 |
| | N | 5,067 | - | 107 | - | 5,718 | - | 5,718 | - |

Ffynhonnell: SQW a StatsCymru

**Tabl 2-7: Deilliannau presenoldeb ac absenoldeb heb ganiatâd CA3 a CA4 mewn ysgolion LILI ac yn holl ysgolion Cymru o 2010/11 hyd 2015/16**

| | | Presenoldeb | | | Absenoldeb heb ganiatâd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA3* | CA4* | Y cyfan | CA3* | CA4* | Y cyfan |
| | | LILI | LILI | Cymru | LILI | LILI | Cymru |
| **2010/11** | gwerth | 91% | 90% | 91% | 1.6% | 2.8% | 1.5% |
| | N | 18,879 | 6,427 | - | 18,879 | 6,427 | - |
| **2011/12** | gwerth | 92% | 90% | 92% | 1.5% | 3.2% | 1.4% |
| | N | 17,699 | 13,124 | - | 17,699 | 13,124 | - |
| **2012/13** | gwerth | 92% | 91% | 93% | 1.4% | 2.8% | 1.3% |
| | N | 16,973 | 12,930 | - | 16,973 | 12,930 | - |
| **2013/14** | gwerth | 93% | 92% | 94% | 1.5% | 2.6% | 1.3% |
| | N | 16,171 | 12,073 | - | 16,171 | 12,073 | - |
| **2014/15** | gwerth | 93% | 92% | 94% | 1.8% | 2.8% | 1.3% |
| | N | 10,662 | 11,330 | - | 10,662 | 11,330 | - |
| **2015/16** | gwerth | 93% | 93% | 94% | 2.1% | 2.5% | 1.3% |
| | N | 5,093 | 11,020 | - | 5,093 | 11,020 | - |

Ffynhonnell: SQW a StatsCymru

## Deilliannau dysgu

### Cyrhaeddiad Saesneg

2.10 Fel a ddangosir yn Ffigwr 2-1 a Ffigwr 2-2, cynyddodd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg yn gyson dros y cyfnod 2010/11 hyd 2015/16, yn CA3 a CA4. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mawr rhwng grwpiau ysgolion. Er bod lefelau cyrhaeddiad ym mhob un o'r tri grŵp wedi cynyddu, a bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng lefelau LlLl a'r holl ysgolion wedi lleihau, roedd trywyddion y newid yn wahanol. Roedd ysgolion Grŵp A, er enghraifft, yn dangos mwy o anwadalrwydd yn CA4 nag ysgolion Grŵp B a Grŵp C.


2.11 Ym mlwyddyn academaidd 2010/11 (2011 yn y tabl), roedd cyrhaeddiad cyfartalog **CA3 Saesneg** yn debyg ym mhob grŵp o ysgolion (68% ar gyfer Grwpiau A a B a 69% yn ysgolion Grŵp C); roedd hyn tuag wyth pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru, sef 76%.

2.12 Erbyn blwyddyn academaidd 2013/2014 (2014 yn y tabl), roedd gwahaniaethau i'w gweld rhwng y tri grŵp o ysgolion. Gwellodd lefelau cyrhaeddiad CA3 Saesneg mewn ysgolion LlLl (79% yn ysgolion Grŵp A, 80% yn ysgolion Grŵp B ac 85% yn ysgolion Grŵp C), yn ogystal â chyrhaeddiad yn genedlaethol (cyfartaledd o 86%). Yn ysgolion Grŵp C, lleihaodd y bwlch perfformiad o gymharu ag ysgolion Cymru gyfan, o saith pwynt canran yn 2010/2011 i un pwynt canran yn 2013/2014, er iddo gynyddu i ddau bwynt canran erbyn 2016. Yn ysgolion Grŵp A, lleihaodd y bwlch o wyth pwynt canran o gymharu â holl ysgolion Cymru yn 2011 ychydig bach i saith pwynt canran yn 2014, a lleihaodd eto i bedwar pwynt canran yn 2016, sy'n awgrymu bod gwelliant yn cyflymu yn ysgolion Grŵp A.

2.13 Roedd y gwelliant hwn yn llai amlwg yn ysgolion Grŵp A ar gyfer **CA4**. Yn 2011, pan oedd cyfartaledd Cymru ar gyfer graddau C ac uwch yn 63%, roedd y cymedr mewn ysgolion LlLl yn gyson yn is a dim ond gwahaniaethau bach iawn a oedd rhwng y grwpiau (51% o ddisgyblion yn ysgolion Grŵp A, 53% yn Grŵp B a 54% yn Grŵp C a gafodd radd C ac uwch). Roedd hyn yn golygu bwlch perfformiad o gymharu â holl ysgolion Cymru o 12 pwynt canran ar gyfer Grŵp A, 10 pwynt canran ar gyfer Grŵp B a naw pwynt canran ar gyfer Grŵp C. Erbyn 2016, roedd y bwlch hwnnw wedi lleihau i ddau bwynt canran yn ysgolion Grŵp C (hynny yw, rhwng 67% ar gyfer ysgolion Grŵp C a 69% yn genedlaethol - gweler Ffigwr 2-2), er bod y gwelliannau perfformiad eisoes i'w gweld yn 2014 (cyn HYC)[6]. Yn ysgolion Grŵp A, arhosodd y bwlch o gymharu â holl ysgolion Cymru yn fawr – 11 pwynt canran.


[6] Mae hyn yn rhan o'r diffiniad o'r grŵp hwn.

**Ffigwr 2-1: Cyrhaeddiad Saesneg CA3 o 2010/11 hyd 2015/16 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**




Ffynhonnell: SQW


**Ffigwr 2-2: Cyrhaeddiad Saesneg CA4 o 2010/11 hyd 2015/16 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**




Ffynhonnell: SQW


2.14 Y tu hwnt i'r darlun cyfanredol hwn, mae Ffigwr 2-3 a Ffigwr 2-4 yn crynhoi'r tueddiadau bras o ran cyrhaeddiad Saesneg yn ôl amryw o nodweddion lefel disgyblion yn CA3 a CA4, yn ôl eu trefn. Mae hyn yn cynnwys cymariaethau ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (MALIC), rhai sy'n gymwys i gael PYDd, rhai â statws Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Eto, mae’n bwysig ailadrodd bod cymariaethau'n cael eu gwneud â chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer pob disgybl.

**Ffigwr 2-3: Cyrhaeddiad CA3 Saesneg yn ôl amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd holl ddisgyblion Cymru)**




Ffynhonnell: SQW

**Ffigwr 2-4: Cyrhaeddiad CA4 Saesneg yn ôl amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd holl ddisgyblion Cymru)**




Ffynhonnell: SQW

2.15 Ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais (a nodir gan MALIC), roedd y gwahaniaeth cyrhaeddiad o gymharu â chyfartaledd Cymru ar ei isaf yn ysgolion Grŵp C; mewn geiriau eraill, roedd perfformiad disgyblion dan anfantais yn Grŵp C yn agosach at gyfartaledd Cymru (holl ddisgyblion) na pherfformiad disgyblion dan anfantais yn ysgolion Grŵp A a Grŵp B.

2.16 Ar y llaw arall, disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac yn mynychu ysgolion Grŵp A oedd yn wynebu'r anfantais fwyaf o gymharu â chyfartaledd Cymru yn CA3 a CA4. Ar ben hyn, roedd y bwlch hwn yn cynyddu dros amser. Roedd y patrwm hwn yn debyg iawn ymysg disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd; yr un gwahaniaeth oedd bod y bwlch o gymharu â chyfartaledd Cymru wedi lleihau ar gyfer pob grŵp yn CA3 (ond roedd y gwahaniaeth yn llawer mwy mewn ysgolion Grŵp C o gymharu â Grŵp A).


2.17 Ar gyfer disgyblion â Datganiad AAA a disgyblion Gweithredu (a Mwy) yn CA3, roedd y data'n dangos tystiolaeth o gydgyfeirio dros amser tuag at gyfartaledd Cymru – yr unig eithriad oedd disgyblion â Datganiad yn ysgolion Grŵp C (lle'r oedd y bwlch wedi cynyddu un pwynt canran). Roedd yr hanes yn llai cadarnhaol yn CA4, lle bu i'r bwlch aros yr un fath neu gynyddu ar gyfer

pob grŵp o ddisgyblion *heblaw* y rhai Gweithredu a Mwy yn ysgolion Grŵp C, lle'r oedd y bwlch wedi lleihau bedwar pwynt canran ar ôl HYC. Fodd bynnag, nid yw'r ciplun data hwn yn ystyried unrhyw dueddiadau mwy cyffredinol yng nghyrhaeddiad disgyblion AAA yng Nghymru, oherwydd gwneir y cymariaethau â chyfartaledd cyffredinol Cymru.

2.18 Yn olaf, o ran disgyblion o leiafrifoedd ethnig (ddim yn wyn), ceir awgrymiadau bod ysgolion Grŵp C – fel y mae'n digwydd, hefyd y grŵp o ysgolion â'r gyfran fwyaf o ddisgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig – wedi cymryd camau mawr o ran cynyddu cyrhaeddiad dros amser. Symudodd disgyblion yn y grŵp hwn o safle o fod o dan gyfartaledd Cymru (dros dri phwynt canran o dan gyfartaledd Cymru ar gyfer Saesneg CA4) i fod yn uwch na'r cyfartaledd yn y blynyddoedd ar ôl HYC (i bron bedwar pwynt canran yn uwch). Roedd disgyblion sy'n lleiafrifoedd ethnig, ddim yn wyn, ym mhob grŵp ysgol yn CA3 a CA4 naill ai'n cydgyfeirio tuag at gyfartaledd Cymru, neu'n rhagori arno, yn ystod y cyfnod ar ôl yr ymyriad.

2.19 Mae **Ffigwr 2-5** yn cyflwyno'r cyfnod pontio o CA3 i CA4 Saesneg, gan wahaniaethu rhwng disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn CA3 a'r rhai na wnaeth hynny. Mae’r ffigwr yn dangos rhai pethau pwysig. Yn gyntaf, bod mwy o ddisgyblion, dros amser, wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg CA3 (gwelliant o 76% i 80% yn ysgolion Grŵp A, o 77% i 81% yn ysgolion Grŵp B ac o 79% i 83% yn ysgolion Grŵp C). Yn ail, mae'r ffigwr yn dangos y gyfradd lwyddiant isel iawn i ddisgyblion na wnaethant gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA3 (llai nag un o bob deg disgybl a fethodd â chyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA3 a aeth ymlaen i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA4). Yn olaf, ar draws y tri grŵp o ysgolion, Grŵp C a gyflawnodd y deilliannau mwyaf ffafriol i'w disgyblion, a chryfhaodd y sefyllfa hon dros amser, gan gyflawni'r gyfran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA3, a'r gyfradd lwyddiant uchaf i'r disgyblion hyn o ran eu canlyniad CA4. Yn y ddwy flynedd ers lansio HYC, aeth bron i bedwar o bob pump (78%) o'r disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn CA3 ymlaen i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA4, o gymharu â dau draean (67%) o ddisgyblion yn ysgolion Grŵp A.

**Ffigwr 2-5: Y cyfnod pontio o CA3 i CA4 Saesneg, wedi'u gwahanu yn ôl canlyniad CA3 a Grŵp ysgol, cyn ac ar ôl HYC**





Ffynhonnell: SQW

*Cyrhaeddiad Mathemateg*

2.20 Fel ar gyfer Saesneg, cynyddodd cyrhaeddiad Mathemateg mewn ysgolion LILI yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan. Hefyd, ceir arwyddion cyffredinol o gydgyfeirio (gweler Ffigwr 2-6 a Ffigwr 2-7). Roedd y gwahaniaethau rhwng y tri grŵp o ysgolion ar eu mwyaf yn 2015, ac roedd rhywfaint o anwadalrwydd yn y blynyddoedd cyn hynny. Er enghraifft, roedd ysgolion Grŵp A yn gyson y tu ôl i'r grwpiau eraill, er bod 2012 yn eithriad amlwg i hyn. Yn y flwyddyn honno, cyflawnodd cyfran uwch o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn nag yn ysgolion Grŵp B y lefel ddisgwyliedig.


2.21 Mae hefyd yn glir bod gwahaniaeth mwy rhwng cyrhaeddiad yn CA4 o gymharu â CA3 rhwng ysgolion LILI a chyfartaledd Cymru gyfan. Er enghraifft, yn 2016, cyflawnodd 88% o blant mewn ysgolion LILI y lefel ddisgwyliedig, o gymharu â 90% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Yn CA4, roedd y canrannau cyfatebol yn 61% a 67% yn ôl eu trefn, ar ôl llawer o flynyddoedd o gydgyfeirio.

**Ffigwr 2-6: Cyrhaeddiad Mathemateg CA3 o 2011-2016 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**




Ffynhonnell: SQW


**Ffigwr 2-7: Cyrhaeddiad Mathemateg CA4 o 2011-2016 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**




Ffynhonnell: SQW


2.22 Mae Ffigwr 2-8 a Ffigwr 2-9 yn cyflwyno tueddiadau cyrhaeddiad cyn ac ar ôl HYC ar gyfer Mathemateg CA3 a CA4, yn ôl eu trefn, ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, rhai sy'n gymwys i gael PYDd, rhai ag AAA, a disgyblion sydd ddim yn wyn.

**Ffigwr 2-8: Cyrhaeddiad Mathemateg CA3 yn ôl amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**




Ffynhonnell: SQW

**Ffigwr 2-9: Cyrhaeddiad Mathemateg CA4 yn ôl amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**




Ffynhonnell: SQW

2.23 O ran y disgyblion sy'n byw yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC), ceir tystiolaeth i awgrymu bod rhai ysgolion LILI wedi dechrau cydgyfeirio â chyfartaledd Cymru ers cyflwyno HYC. Disgyblion yn ysgolion Grŵp C a gafodd y mwyaf o lwyddiant o ran cau'r bwlch o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond roedd disgyblion yn ysgolion Grŵp A yn dargyfeirio, a thyfodd y bwlch rhwng yr ysgolion hyn a chyfartaledd Cymru yn CA3 a CA4. Ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, mae'r patrymau'n debyg i ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.


2.24 Ar gyfer disgyblion â statws AAA, mae'r data'n dangos rhywfaint o gydgyfeirio rhwng yr ysgolion LILI a chyfartaledd Cymru dros amser ar gyfer disgyblion â statws Gweithredu (a Mwy) a Datganiad AAA yn CA3. Yn CA4, ceir tystiolaeth o ddargyfeirio ar gyfer ysgolion Grŵp A (yn fwy ar gyfer disgyblion â datganiad), diffyg newid ar gyfer ysgolion Grŵp B, a chydgyfeirio ar gyfer ysgolion Grŵp C.

2.25 Yn olaf, o ran disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd ddim yn wyn, ceir patrymau cymysg ar draws y grwpiau o ysgolion. Y rheswm mwyaf tebygol dros hyn yw cyfran fach disgyblion o'r fath yn ysgolion Cymru; roedd y cyfartaledd yn 5.4% o'r disgyblion ar draws yr holl ysgolion LILI yn

2016 (ac yn amrywio o lai nag un y cant i dros 23% mewn ysgolion unigol). Mae'r data'n awgrymu bod disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd ddim yn wyn, yn gwneud yn well ym mhwnc Mathemateg yn ysgolion Grŵp C (lle mae'r grŵp hwn yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru, yr unig grŵp i wneud hynny). Yn fwy cyffredinol, mae disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd ddim yn wyn, yn tueddu i berfformio'n well na disgyblion gwyn.

2.26 Yn olaf, o ran y gyfradd lwyddiant o CA3 i CA4 ym mhwnc Mathemateg, mae Ffigwr 2-10 yn dangos patrymau eithaf tebyg i'r rhai a gyflwynwyd ar gyfer Saesneg. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod y disgyblion sy'n methu â chyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA3 yn annhebygol iawn o fynd ymlaen i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA4 (dim ond tua 3% o'r disgyblion hyn sy'n llwyddo). Ar draws yr holl ysgolion LlLl, cynyddodd cyfran y disgyblion a lwyddodd i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA3 ac a aeth ymlaen i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA4, ar ôl HYC. Roedd hyn ar ei uchaf ymysg disgyblion yn ysgolion Grŵp C.

**Ffigwr 2-10: Y cyfnod pontio o CA3 i CA4 Mathemateg, wedi'u gwahanu yn ôl canlyniad CA3 a Grŵp ysgol, cyn ac ar ôl HYC**





Ffynhonnell: SQW

*Cyrhaeddiad Cymraeg*

2.27 Ar gyfer cyrhaeddiad Cymraeg, mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau CA3 yn unig, oherwydd ychydig iawn o ddisgyblion mewn ysgolion LILI a safodd arholiad Cymraeg CA4 (107 o ddisgyblion yn 2016). Fel y nodwyd uchod, dyma pam nad ydym yn dadansoddi cyrhaeddiad Cymraeg yn yr adrannau modelu econometrig diweddarach.

2.28 Fel y dangosir yn Ffigwr 2-11, mae ysgolion LILI wedi cydgyfeirio tuag at gyfartaledd Cymru dros amser. Yn ysgolion Grŵp C, er enghraifft, cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer Cymraeg CA3 o 57% yn 2010/2011 i 80% erbyn 2015/16, gan haneru'r bwlch o gymharu â chyfartaledd Cymru o 24 pwynt canran i 12 pwynt canran dros y cyfnod hwn. Mae'n werth nodi bod y gwahaniaeth rhwng y tri grŵp o ysgolion ar ei isaf ym mlwyddyn academaidd 2015/16.

**Ffigwr 2-11: Cyrhaeddiad Cymraeg CA3 o 2011-2016 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**





Ffynhonnell: SQW

2.29 O ran nodweddion disgyblion penodol, mae Ffigwr 2-12 yn dangos mai ysgolion Grŵp C a wnaeth y cynnydd mwyaf o gymharu â chyfartaledd Cymru dros amser, yn enwedig o ran disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (MALIC), sy'n gymwys i gael PYDd ac sydd â statws AAA Gweithredu (a Mwy). Ar gyfer disgyblion â Datganiad AAA, a hefyd ar gyfer

disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd ddim yn wyn, roedd y patrymau ar draws grwpiau ysgolion yn fwy cymhleth. Yn y ddau achos, ysgolion Grŵp A a wnaeth y mwyaf o gynnydd; gwnaeth ysgolion Grŵp B lai o gynnydd. Yn yr ysgolion hynny, cynyddodd y bwlch rhwng disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd ddim yn wyn, a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig ailadrodd y ffaith mai dim ond cyfran fach o ddisgyblion yr ysgolion hyn sydd o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd ddim yn wyn.

**Ffigwr 2-12: Cyrhaeddiad Cymraeg CA3 ar draws amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**





Ffynhonnell: SQW

*Cyrhaeddiad L2C*

2.30 Gan nad yw'r ymyriad HYC wedi'i gynllunio i dargedu cyrhaeddiad Saesneg a Mathemateg yn benodol, rydym hefyd yn cyflwyno dadansoddiad o fesur cyrhaeddiad cyfansawdd L2C. Mae'r patrymau a gyflwynir yn Ffigwr 2-13 yn gyson ar y cyfan â'r mesurau cyrhaeddiad a gyflwynwyd eisoes ar gyfer Saesneg a Mathemateg.

2.31 Fel y mae Ffigwr 2-13 yn ei ddangos, roedd y gwahaniaethau rhwng y tri grŵp o ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2010/11 yn fach iawn (gwahaniaeth o un pwynt canran); cynyddodd hyn yn sylweddol erbyn 2013/14 (gwahaniaeth o 14 pwynt canran rhwng ysgolion Grŵp A ac C). Lleihaodd y bwlch hwn i tua phum pwynt canran erbyn blwyddyn academaidd 2015/16. Dros y cyfnod hwn, lleihaodd y bwlch rhwng ysgolion LlLl a chyfartaledd Cymru yn sylweddol, o tua 15 pwynt canran yn 2010/11 ar gyfer ysgolion Grŵp C i chwe phwynt canran yn 2015/16. Mae’n werth nodi, ar gyfer ysgolion Grŵp B ac C, bod y bwlch o gymharu â chyfartaledd Cymru wedi bod yn cynyddu cyn cyflwyno HYC. Ar gyfer ysgolion Grŵp A, gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd ym mlwyddyn academaidd 2015/16 (hynny yw, ar ôl HYC).


**Ffigwr 2-13: Cyrhaeddiad L2C o 2011-2016 (% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig)**




Ffynhonnell: SQW

2.32 O ran nodweddion disgyblion, mae Ffigwr 2-14 yn dangos mai disgyblion yn ysgolion Grŵp C sydd wedi gwneud y gwelliant mwyaf, yn enwedig o ran disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Dim ond o ran disgyblion â Datganiad AAA y mae'r patrwm ychydig bach yn wahanol, yn enwedig disgyblion â Datganiad AAA yn ysgolion Grŵp B, lle cynyddodd y bwlch cyrhaeddiad L2C o gymharu â chyfartaledd Cymru.

**Ffigwr 2-14: Cyrhaeddiad L2C ar draws amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**





Ffynhonnell: SQW

*Cyfradd presenoldeb*

2.33 Mae'r gwahaniaethau o ran presenoldeb yn fach iawn ar draws ysgolion LILI, a rhwng ysgolion LILI a chyfartaledd Cymru, ar draws yr holl gyfnod a ddadansoddwyd (y gwahaniaeth mwyaf yw 3%), fel a ddangosir yn Ffigwr 2-15.


**Ffigwr 2-15: Cyfradd presenoldeb o 2011-2016 (%)**




Ffynhonnell: SQW

2.34 Yn fwy diddorol, fodd bynnag, ceir gwahaniaethau yn ôl nodweddion disgyblion ar draws grwpiau ysgolion. O ran disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (MALIC), dim ond ysgolion Grŵp C a wnaeth gynnydd tuag at leihau'r gwahaniaeth rhwng eu presenoldeb a chyfartaledd Cymru (gweler Ffigwr 2-16). Mae stori debyg yn wir am ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd. O ran statws AAA, mae'r data'n dangos mai ysgolion Grŵp A sydd bellaf oddi wrth gyfartaledd Cymru, cyn ac ar ôl cyflwyno HYC. Fodd bynnag, o ran disgyblion â Datganiad AAA mae'r bwlch hwn wedi lleihau tuag un pwynt canran dros y ddau gyfnod a gyflwynwyd.

**Ffigwr 2-16: Cyfradd presenoldeb ar draws amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**





Ffynhonnell: SQW

*Cyfradd absenoldeb heb ganiatâd*

2.35 Mae cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd gryn dipyn yn uwch yn ysgolion Grŵp A; roeddent yn gyson yn fwy na dwbl cyfradd gyfartalog Cymru. Fel y mae Ffigwr 2-17 yn ei ddangos, mae disgyblion yn yr ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd cymysg dros amser; roedd rhai arwyddion o gydgyfeirio i ddechrau, ond yna cynyddodd y gyfradd i'r lefel uchaf o fewn y cyfnod, sef 3.9%, ym mlwyddyn academaidd 2014/15. Gostyngodd y ffigur hwn i 3.5% ym mlwyddyn academaidd 2015/2016. Mae'r patrymau hefyd yn gymysg yn ysgolion Grŵp B ac C, er bod y bwlch o gymharu â chyfartaledd Cymru'n llawer llai. Yn y ddau achos, roedd cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd ar drywydd tuag i lawr o 2010/11 hyd 2013/14, ond yna cynyddodd hyn ym mlynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16, ar ôl cyflwyno HYC. Mae'r canfyddiad hwn yn un heriol, oherwydd roedd lleihau absenoldeb heb ganiatâd yn rhan ganolog o gynlluniau gweithredu'r rhan fwyaf o ysgolion LILI. Mewn rhai achosion (efallai yn y rhan fwyaf), mae'n bosibl bod y cynnydd yn adlewyrchu gwell monitro (llai o achosion o driwantiaeth yn digwydd heb gael eu cofnodi). Mewn achosion eraill, fodd bynnag, mae'n bosibl ei fod yn arwydd bod mwy o her (yn fugeiliol ac yn academaidd) i ddisgyblion wedi arwain at gynnydd mewn absenoldeb heb ganiatâd.


**Ffigwr 2-17: Cyfradd absenoldeb heb ganiatâd o 2011-2016 (%)**




Ffynhonnell: SQW

2.36 I droi at nodweddion lefel disgyblion, mae Ffigwr 2-18 yn dangos tuedd tuag at fwy o ddargyfeirio (cyfraddau uwch absenoldeb heb ganiatâd) oddi wrth gyfartaledd Cymru dros amser, gyda rhai eithriadau ar draws grwpiau ysgolion. Mae'r eithriadau hyn, fodd bynnag, yn brin, ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd o welliant ar draws unrhyw grwpiau o ddisgyblion neu o ysgolion.

**Ffigwr 2-18: Cyfradd absenoldeb heb ganiatâd ar draws amrywiaeth o nodweddion ar gyfer pob Grŵp, cyn ac ar ôl HYC (gwahaniaeth % o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)**




Ffynhonnell: SQW

2.37 Mae angen ymchwilio ymhellach i'r amrywiadau hyn rhwng ysgolion, er mwyn gweld a yw'r gwahaniaethau'n arwyddocaol. Mae’r adrannau canlynol yn archwilio camau nesaf dadansoddi'r data.

## Dadansoddiad aml-lefel (hierarchaidd) o ddata lefel disgyblion

3.1 Mae'r olwg gyffredinol ddisgrifiadol ar y data lefel disgyblion yn rhoi syniad o'r gwahaniaethau rhwng deilliannau disgyblion ar draws amrywiaeth o gategorïau, gan gynnwys gwahanol grwpiau'r ysgolion LILI. Mae'r adran hon yn cyflwyno cyfres o fodelau amlamryweb er mwyn rhoi tystiolaeth bellach o gyfraniad cymharol, mewn termau ystadegol, ystod o ffactorau tuag at ddeilliannau lefel disgyblion.

### Y data a'r dull

3.2 Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar dri mesur cyrhaeddiad (Saesneg, Mathemateg a L2C), yn ogystal â deilliannau presenoldeb ac absenoldeb heb ganiatâd. Ychydig iawn o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn a oedd yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, sy'n golygu bod maint y sampl yn rhy fach i gynnal dadansoddiad econometrig cadarn o gyrhaeddiad Cymraeg.

3.3 Y dull a ddefnyddiwyd yw modelu aml-lefel. Mae'r dull ystadegol hwn yn ein galluogi i ddadansoddi ffactorau deilliannau disgyblion ar lefel disgyblion ac ar lefel ysgolion gyda'i gilydd, er mwyn canfod y prif ffactorau yn y data sydd ar gael (o CDdGD) yr oedd yn ymddangos eu bod yn gysylltiedig â lefelau uwch o gyrhaeddiad a phresenoldeb.

3.4 Roedd pob un o'r modelau'n cynnwys cyfres o newidynnau ar lefel ysgolion, megis lefel amddifadedd (cyfran y disgyblion yn 10% isaf MALlC), pa mor gydradd yw'r rhywiau yn y cohort, cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a chyfran y disgyblion â statws AAA (gweler Tabl 3-1). Ar lefel disgyblion, roedd y newidynnau'n cynnwys rhyw, pwy sy'n gymwys i gael PYDd, cyrhaeddiad blaenorol a phresenoldeb.

3.5 Roedd rhai newidynnau, felly, yn newidynnau cefndir (i archwilio effaith presenoldeb ar gyrhaeddiad, er enghraifft) ac yn newidynnau deilliant (i archwilio'r cysylltiad rhwng PYDd a phresenoldeb). Yn olaf, gwnaethpwyd y modelau i gyd â set lawn o newidynnau amser, i asesu gwahaniaethau arwyddocaol fesul blwyddyn, cyn ac ar ôl HYC.

3.6 Nodir y newidynnau sydd ar gael ar lefel disgyblion-ac ysgol yn Nhabl 3-1. Ceir rhestr gyflawn o labeli a disgrifiadau amrywiol yn Atodiad Tabl A-1.

**Tabl 3-1: Rhestr newidynnau**

| Lefel disgyblion | Lefel ysgolion |
|---|---|
| Rhyw | Cymhareb rhyw (% benyw) |
| Ethnigrwydd | Ethnigrwydd (% ddim yn wyn) |
| Cymwys i gael PYDd | Cymwys i gael PYDd (% yn gymwys i gael PYDd) |
| Statws AAA | Statws AAA (% â statws AAA) |
| Presenoldeb | Presenoldeb (% o gyfartaledd yr ysgol) |
| Byw mewn ardal ddifreintiedig (10% isaf MALIC) | Cyfran y disgyblion sy'n byw yn 10% isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC |
| Cyrhaeddiad blaenorol | Prif gyfrwng iaith |
| | Grŵp (wedi'i neilltuo) |
| | Maint yr ysgol (nifer y disgyblion) |

Ffynhonnell: SQW

3.7 Cynhaliwyd y modelu mewn dau gam:

- Y cyntaf oedd dewis model o berfformiad lefel disgyblion (megis cyrhaeddiad mathemateg) i ffurfio sail i ddadansoddiadau canlynol (gan gynnwys y modelau rhagweld – gweler Adran 4).
- Yr ail gam oedd defnyddio'r model hwn i brofi ystod o effeithiau rhyngweithio ag amser ar yr ystod lawn o nodweddion disgyblion, gan gynnwys ethnigrwydd, statws AAA, pwy sy'n gymwys i gael PYDd a byw mewn ardal ddifreintiedig (10% isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC).

3.8 O'r modelau, roedd yn bosibl canfod pa ffactorau yr oedd yn ymddangos bod y cysylltiad agosaf rhyngddynt â chyrhaeddiad a phresenoldeb uwch, gan reoli'r holl newidynnau eraill yn y modelau. Dylem bwysleisio mai modelau archwiliol oedd y rhain a, gan eu bod wedi'u cyfyngu i'r data sydd ar gael yn CDdGD, ni allent fod yn gwbl esboniadol.

3.9 Cafodd yr holl fodelau eu rhedeg yn Stata, gan ddefnyddio newidynnau deilliant deuaidd (gorchymyn Stata “melogit”) a pharhaus (gorchymyn Stata “mixed”). Cafodd yr holl fodelau eu rhedeg â gwallau safonol “cadarn” (hynny yw, mae'r amcangyfrifon yn gadarn i rai mathau o gamddisgrifio cyn belled â bod yr arsylwadau'n annibynnol).

3.10 Mae’n bwysig nodi bod yr holl fodelau a gyflwynir yn yr adran hon **yn cynnwys cyfartaledd holl ddisgyblion Cymru** fel newidyn. Mae hwn wedi'i gynnwys i reoli ar gyfer tuedd gyffredinol tuag at gynyddu cyrhaeddiad dros amser. Mewn geiriau eraill, flwyddyn ar ôl blwyddyn, roedd cyfran uwch o

ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, ar gyfartaledd, yn holl ysgolion Cymru. Rydym yn rheoli ar gyfer y duedd hon er mwyn ei gwneud yn haws canfod tueddiadau penodol – megis unrhyw dystiolaeth o gydgyfeirio – yn y patrwm ehangach hwn o gynyddu cyrhaeddiad, a'i gwneud yn haws cymharu canlyniadau dros amser. Mae’r newidyn hwn wedi'i hepgor o'r ffigurau i'w gwneud yn haws eu cyflwyno.

3.11 Mae canlyniadau'r modelau aml-lefel wedi'u cyflwyno ar ffurf siartiau sy'n plotio amcangyfrif o'r pwynt (cyfesuryn[7]) a'r cyfwng hyder o'i gwmpas. Gellir ystyried bod newidyn yn ystadegol arwyddocaol os nad yw'r cyfwng hyder hwn yn mynd drwy'r llinell fertigol ar sero. Os yw'r amcangyfrif i'r dde o'r llinell sero hon, gellir ystyried bod y cysylltiad â'r newidyn deilliant yn bositif (os yw'n ystadegol arwyddocaol) ac os yw i'r chwith, mae'n negatif.

3.12 Yn olaf, ac yn gysylltiedig, i'w gwneud yn haws dehongli'r adran hon i gyd, dehonglir newidynnau esboniadol (h.y. rhyw) yn nhermau bod yn fwy neu'n llai tebygol o fod yn gysylltiedig â newidynnau deilliant (h.y. cyrhaeddiad Saesneg). Er enghraifft, os yw'r newidyn rhyw (wedi'i godio fel benyw=1, gwryw=0) yn bositif ac yn arwyddocaol yn y model, byddai hyn yn golygu ei fod yn dweud bod benywod yn fwy tebygol o gyflawni'r newidyn deilliant dan sylw. Mae hefyd yn bwysig nodi, o safbwynt technegol, bod y modelau'n cynhyrchu canlyniadau yn nhermau cymarebau ods, a chynyddu/lleihau ods.

3.13 Mae pob siart wedi’i rannu’n dair adran. Mae'r gyfres gyntaf o gyfernodau ar ben pob siart yn cyfeirio at newidynnau allweddol o ddiddordeb, mae'r ail gyfres yn cyfeirio at ffactorau lefel disgyblion, ac mae'r gyfres olaf yn cyfeirio at ffactorau lefel ysgolion. Ar gyfer newidynnau amser, mae’n bwysig nodi eu bod yn cael eu trin fel newidynnau ffug, categorig ac mai'r flwyddyn 2009/2010 yw blwyddyn y waelodlin. Mewn geiriau eraill, dylid dehongli'r holl ganlyniadau yn nhermau eu perthynas â pherfformiad deilliant penodol yn 2009/2010.


3.14 Ar ôl pob siart golwg gyffredinol, cyflwynir ail gyfres o bedwar siart i ganolbwyntio ar effeithiau rhyngweithio penodol. Diben y siartiau ychwanegol hyn yw datgelu unrhyw ddynameg bwysig dros amser. Rydym wedi canolbwyntio ar bedwar rhyngweithiad, sef byw mewn ardal ddifreintiedig, bod yn gymwys i gael PYDd, statws AAA, ac ethnigrwydd. Mae pob siart yn ffurfio estyniad o'r prif siart o'i flaen ond, at ddibenion y cyflwyniad, dim ond y newidynnau rhyngweithio allweddol sydd wedi'u cyflwyno.

[7] Mae tablau allbwn llawn y model aml-lefel wedi'u cyflwyno yn yr atodiad (ar ffurf cymarebau ods, yn hytrach na chyfesurynnau model yn y siartiau) i'w gwneud yn haws eu dehongli.

**Cyrhaeddiad Saesneg**

3.15 Mae'r model gwaelodlin ar gyfer cyrhaeddiad Saesneg CA3 wedi'i gyflwyno yn Ffigwr 3-1 ac mae'n dangos cysylltiad positif cryf rhwng cyrhaeddiad Saesneg CA2 (att_eng_ks2) a chyrhaeddiad CA3. Mewn geiriau eraill, mae cysylltiad cryf rhwng cyrhaeddiad uwch yn CA3 a chyrhaeddiad uwch yn CA2. Mae'r newidynnau tuedd amser (2010.year-2015.year) hefyd yn dangos, dros amser, bod y siawns o gyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg CA3 ymysg disgyblion yn yr ysgolion hyn wedi lleihau (ar ôl ystyried yr holl newidynnau eraill). O wybod bod y modelau'n ystyried y newid i gyrhaeddiad cyfartalog Cymru dros amser, mae hyn yn awgrymu y *gallai* fod cyfradd gwella canlyniadau CA3 ers 2010 mewn ysgolion LlLl yn arafach na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond nid yw'r canfyddiadau'n fawr nac yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigwr 3-1: Model gwaelodlin ar gyfer Saesneg CA3 * gweler Tabl A-1 ar gyfer disgrifiadau amrywiol.**





Ffynhonnell: SQW

3.16 O ran nodweddion lefel disgyblion, mae bod yn fenyw, bod â statws lleiafrif ethnig (ddim yn wyn) a bod â chyfraddau presenoldeb uwch i gyd wedi'u cysylltu â chyfraddau cyrhaeddiad uwch, ac mae bod yn gymwys i gael PYDd, statws AAA a byw mewn ardal ddifreintiedig (wimd10) i gyd wedi'u cysylltu â chyfraddau cyrhaeddiad is. Mae'r cyfesurynnau hyn i gyd yn ystadegol arwyddocaol.

3.17 Yn olaf, o ran ffactorau lefel ysgolion, mae pedwar yn arwyddocaol o ran cynyddu'r siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg CA3 ar draws ysgolion. Mae rhai o'r rhain i'w disgwyl: mae disgyblion mewn ysgolion â chyfraddau presenoldeb uwch (sch_attend) yn gwneud yn well na disgyblion mewn ysgolion â phresenoldeb cyfartalog isel, er enghraifft. Mae eraill yn fwy heriol: mae disgyblion mewn ysgolion â chyfran uwch o ddisgyblion AAA (sch_sen) yn gwneud yn well na'u cymheiriaid, yn ogystal â disgyblion mewn ysgolion â chyfran uwch o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd difreintiedig (sch_wimd10), a disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (land_2). Yn amlwg, mae newidynnau eraill ar waith yma.

3.18 Mae Ffigwr 3-2 yn edrych yn fanylach ar effeithiau rhyngweithio rhwng pedwar newidyn allweddol (MALIC, bod yn gymwys i gael PYDd, statws AAA ac ethnigrwydd) yn unigol a dros amser. Yr amcan yw gweld sut y mae'r berthynas rhwng pob un o'r ffactorau hyn wedi newid dros amser. Mae'r canlyniadau'n rhoi rhywfaint o dystiolaeth bod disgyblion AAA Gweithredu (a Mwy) (1.sen) a Datganiad AAA (2.sen) yn mynd yn bellach ar ei hôl hi yn CA3 (yn enwedig yn 2016), a bod y duedd yn y ddau gategori AAA tuag at lai o siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg CA3. Nid yw'r rhan fwyaf o'r canlyniadau hyn yn ystadegol arwyddocaol ac (fel y gellir gweld) mae cyfyngau hyder mawr o'u cwmpas. Mae tuedd wrthwyneb i'w gweld ar gyfer disgyblion â statws PYDd a lleiafrifoedd ethnig; mae'n ymddangos bod y siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn cynyddu dros amser. Yn y naill achos a'r llall, fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau'n ystadegol arwyddocaol.

**Ffigwr 3-2: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio Saesneg CA3**





Ffynhonnell: SQW

3.19 Ar gyfer Saesneg CA4, mae llawer o'r patrymau sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad CA3 yn dal i fodoli, â rhai eithriadau. Fel y gwelir yn Ffigwr 3-3, mae cysylltiad positif cryf unwaith eto rhwng cyrhaeddiad blaenorol a gwell siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg CA4. Mae'r dystiolaeth yn dangos, o gymharu â'r flwyddyn waelodlin (2009/2010) a gan ystyried newidiadau i gyfartaledd cenedlaethol Cymru, mai ychydig iawn o newid a fu i'r perfformiad dros amser, ac eithrio 2013 (y flwyddyn cyn HYC) lle'r oedd cyrhaeddiad yn is, ond mae wedi gwella ers hynny.

3.20 Ar draws newidynnau lefel disgyblion, mae'r patrwm yn aros yn gwbl gyson â chanfyddiadau CA3. Ar gyfer y newidynnau lefel ysgolion, mae'r patrymau'n aros yr un fath gan fwyaf, er bod gan y disgyblion mewn ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion AAA fwy o siawns o gyrhaeddiad uwch mewn Saesneg CA3. Nid yw hyn yn golygu bod y disgyblion AAA yn gwneud yn well, ond bod eu cyfoedion, ar gyfartaledd, yn gwneud yn well na disgyblion mewn ysgolion eraill.


**Ffigwr 3-3: Model gwaelodlin ar gyfer Saesneg CA4**




Ffynhonnell: SQW

3.21 O ran effeithiau rhyngweithio, mae Ffigwr 3-4 yn cyflwyno ystod o wahanol dueddiadau, er nad oes dim ohonynt yn ystadegol arwyddocaol. Ar gyfer pob un o'r newidynnau (MALIC, PYDd, AAA ac Ethnigrwydd), ceir arwyddion o welliant yn yr ysgolion LILI yn y blynyddoedd diwethaf o gymharu â'r flwyddyn waelodlin 2009/2010. Mae'r duedd hon i'w gweld gliriaf yn y dadansoddiadau MALIC a PYDd, ac yn dangos cynnydd cyffredinol yn y siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg CA4 dros amser (hyd yn oed wrth reoli ar gyfer y duedd tuag i fyny mewn cyrhaeddiad sydd i'w gweld ledled Cymru gyfan). Ar gyfer newidynnau statws AAA ac ethnigrwydd, dim ond yn y blynyddoedd diwethaf (2015/2016 yn enwedig) y mae'r duedd bositif hon i'w gweld.

**Ffigwr 3-4: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio Saesneg CA4**





Ffynhonnell: SQW

*Cyrhaeddiad Mathemateg*

3.22 Mae Ffigwr 3-5 yn cyflwyno canlyniadau'r model aml-lefel ar gyfer cyrhaeddiad Mathemateg CA3. Mae'r darlun yn gyson ar y cyfan â'r patrymau a welwyd ar gyfer Saesneg CA3.


**Ffigwr 3-5: Model gwaelodlin ar gyfer Mathemateg CA3**




Ffynhonnell: SQW

3.23 Un o nodweddion Ffigwr 3-6 sy'n sefyll allan yw'r siawns is bod disgyblion â Datganiad AAA yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg CA3. Ar ôl gwelliant byr (ond anarwyddocaol) yn 2013/2014, mae'r rhain wedi gwaethygu. Ar gyfer yr holl effeithiau rhyngweithio eraill, mae'r canlyniadau i'w gweld yn gymysg ac ychydig iawn o'r cyfernodau sy'n ystadegol arwyddocaol.


**Ffigwr 3-6: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio Mathemateg CA3**




Ffynhonnell: SQW

3.24 Yn wahanol i'r canfyddiad ym modelau Saesneg a Mathemateg CA3, roedd gan fechgyn fwy o siawns o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg CA4. Fel y dangoswyd yn Ffigwr 3-7, mae hefyd yn glir bod cyrhaeddiad blaenorol yn bwysig i gyrhaeddiad disgyblion unigol mewn Mathemateg CA4, yn ogystal â chyfradd bresenoldeb y disgybl ei hun. Yn gyson â'r modelau blaenorol, mae cysylltiad rhwng bod yn gymwys i gael PYDd neu fod ag AAA a siawns is o gyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Ar lefel ysgolion, mae dau newidyn yn ystadegol arwyddocaol. Mae disgyblion mewn ysgolion â chyfradd uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn llai tebygol o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg CA3, ac mae cysylltiad positif rhwng bod mewn ysgol â chyfran uwch o ddisgyblion â statws AAA a'r deilliant hwnnw.


**Ffigwr 3-7: Model gwaelodlin ar gyfer Mathemateg CA4**




Ffynhonnell: SQW

3.25 O ran effeithiau rhyngweithio, mae Ffigur 3-8 yn rhoi darlun cymysg ar draws y newidynnau dan sylw. Ceir arwyddion calonogol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a disgyblion â Datganiad AAA, gan fod y cyfesurynnau'n symud i gyfeiriad mwy positif dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, dim ond y cyntaf o'r rhain (disgyblion PYDd) sy'n ystadegol arwyddocaol, a dim ond ar gyfer 2015/2016. Ar gyfer yr olaf (AAA), mae'r gwelliant hwn yn groes i'r duedd a nodwyd cyn hyn ar gyfer Mathemateg CA3.

**Ffigwr 3-8: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio Mathemateg CA4**





Ffynhonnell: SQW

*Cyrhaeddiad L2 cynhwysol (Cymraeg/Saesneg a Mathemateg)*

3.26 Gan nad oes mesur cyfatebol i L2C (Lefel 2 cynhwysol) ar gael yn CA3, crëir newidyn cyfansawdd i gynrychioli'r dirprwy cywerth gorau â'r data sydd ar gael. Yn syml, mae'r newidyn hwn yn dynodi a yw disgybl wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a Mathemateg yn CA3. Fel a gyflwynwyd yn Ffigwr 3-9, mae cysylltiad clir rhwng y mesur cyrhaeddiad blaenorol hwn a pherfformiad L2C CA4, fel y disgwyl.

**Ffigwr 3-9: Model gwaelodlin ar gyfer L2C**




Ffynhonnell: SQW


3.27 O ran nodweddion lefel disgyblion, mae cysylltiad rhwng cyfraddau cyrhaeddiad uwch a chyfraddau presenoldeb uchel, bod yn fenywod, a disgyblion sydd ddim yn wyn. Mae cysylltiad rhwng lefelau cyrhaeddiad is a disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, disgyblion â statws AAA, a disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

3.28 Ar lefel ysgolion, mae cysylltiad rhwng disgyblion mewn ysgolion â chyfraddau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a chyfraddau is ar gyfer cyrhaeddiad L2C, ac mae cysylltiad rhwng disgyblion sy'n mynychu ysgolion â chyfrannau uwch o ddisgyblion â statws AAA a chyrhaeddiad uwch.

3.29 Mae'r set lawn o effeithiau rhyngweithio wedi'u cyflwyno yn Ffigwr 3-10. Ar gyfer pob un o'r nodweddion yr ydym yn canolbwyntio arnynt, mae'r patrymau'n gymysg. Er bod rhai awgrymiadau bod disgyblion MALIC a disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn gwella dros amser (h.y. yn cau'r bwlch

o gymharu â disgyblion sydd ddim yn MALIC a ddim yn gymwys i gael PYDd, yn ôl eu trefn), mae'r tueddiadau hyn yn anwadal ac nid ydynt yn cyrraedd arwyddocâd ystadegol.

**Ffigwr 3-10: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio L2C**





Ffynhonnell: SQW

*Presenoldeb*

3.30 Mae'r holl fodelau presenoldeb yn rheoli ar gyfer presenoldeb blaenorol yn y flwyddyn gynt, ond at ddibenion y cyflwyniad mae'r newidyn hwn wedi'i hepgor o'r ffigurau. O gymharu â'r flwyddyn waelodlin (2009/2010), mae presenoldeb lefel disgyblion wedi bod yn uwch bob blwyddyn na'r flwyddyn gynt, ond mae cyfradd y gwelliant wedi bod yn arafu. O ran nodweddion lefel disgyblion, mae cyfraddau presenoldeb is yn gysylltiedig â bod yn fenyw, bod yn gymwys i gael PYDd, byw mewn ardal ddifreintiedig, a bod ag AAA (ond dim ond disgyblion â statws Gweithredu [a Mwy]) (gweler Ffigwr 3-11). Mae cysylltiad rhwng disgyblion sydd ddim yn wyn a chyfraddau presenoldeb uwch. Ar lefel ysgolion, mae'r patrymau'n gyson â'r dadansoddiad blaenorol. Mae cysylltiad negatif rhwng ysgolion lle ceir cyfrannau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a phresenoldeb da, ac mae cysylltiad positif rhwng ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion â statws AAA a phresenoldeb da.


**Ffigwr 3-11: Model gwaelodlin ar gyfer cyfraddau presenoldeb**




Ffynhonnell: SQW

3.31 Mae'r effeithiau rhyngweithio, a gyflwynir yn Ffigwr 3-12, yn awgrymu, ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, yn ogystal â'r rhai sy'n byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, bod y gwahaniaeth o ran disgyblion sydd ddim yn PYDd a ddim yn MALIC10, yn ôl eu trefn, wedi bod yn lleihau dros amser. O ran presenoldeb disgyblion â statws AAA a disgyblion sydd ddim yn wyn, mae'r patrymau'n llawer mwy cymysg.

**Ffigwr 3-12: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio ar gyfer cyfraddau presenoldeb**





Ffynhonnell: SQW

*Absenoldeb heb ganiatâd*

3.32 Mae Ffigwr 3-13 yn dangos bod cysylltiad rhwng lefelau uchel o absenoldeb heb ganiatâd a disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, rhai â statws AAA (Datganiad a Gweithredu [a Mwy]), a rhai sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig. Ar lefel ysgolion, mae gan ddisgyblion mewn ysgolion â chyfrannau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd lefelau llawer uwch o absenoldeb heb ganiatâd. Yr unig ffactor sy'n gysylltiedig â chyfraddau is o absenoldeb heb ganiatâd yw dod o grŵp o ddisgyblion sy'n lleiafrif ethnig neu ddim yn wyn.


**Ffigwr 3-13: Model gwaelodlin ar gyfer cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd**




Ffynhonnell: SQW

3.33 O ran effeithiau rhyngweithio, mae Ffigwr 3-14 yn dangos patrymau cymysg ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a disgyblion sydd ddim yn wyn dros amser. Ar gyfer disgyblion â statws AAA, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cyfraddau absenoldeb yn uwch ymysg disgyblion â Datganiad a disgyblion Gweithredu (a Mwy) a thystiolaeth debyg ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

## Ffigwr 3-14: Ffocws ar effeithiau rhyngweithio ar gyfer cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd




Ffynhonnell: SQW

## Asesu perfformiad ysgolion LILI

4.1 Y brif her i'w goresgyn wrth asesu perfformiad ysgolion LILI yw sefydlu senario gwrthffeithiol dilys i fesur eu perfformiad yn ei erbyn. Oherwydd natur yr ymyriad, yn ogystal â'r cymysgedd o ymyriadau ychwanegol sy'n digwydd mewn ysgolion, nid oedd yn bosibl dewis set o ysgolion i gymharu â hwy na phrofi am wahaniaethau gan ddefnyddio dulliau econometrig. Felly, defnyddiwyd dull arbrofol, gan greu senario gwrthffeithiol drwy ddadansoddi trywydd ysgolion LILI cyn dechrau'r ymyriad HYC ac yna ddefnyddio methodoleg econometrig i ragweld perfformiad yr ysgolion hyn dros y blynyddoedd canlynol. Yna, rydym yn cymryd y rhagfynegiadau hyn ac yn eu cymharu â'r canlyniadau a gofnodwyd ym mhob un o'r ysgolion LILI. Cafodd amryw o ddulliau rhagweld eu treialu fel rhan o'r broses hon, o dueddiadau data hanesyddol llinol syml, i fodelau rhagweld amodol sy'n ystyried natur a nodweddion (gan gynnwys perfformiad yn y gorffennol) y cohort o ddisgyblion ym mhob ysgol ym mhob blwyddyn a ragwelwyd.

4.2 O safbwynt technegol, cynhaliwyd y modelau rhagweld a'r dadansoddiadau yn Stata gan ddefnyddio cyfuniad o'r gorchmynion “xtreg” a “forecast”. Gyda'i gilydd, mae'r gorchmynion hyn yn galluogi datblygiad modelau i ddisgrifio perfformiad ysgolion LILI cyn cyflwyno HYC yn 2014/15, ac yna defnyddio'r wybodaeth hon i ragfynegi gwerthoedd y gwahanol ddeilliannau yn y dyfodol (cyrhaeddiad, presenoldeb, absenoldeb heb ganiatâd).

4.3 Fel y gwelwyd yn y dadansoddiad cynharach, mae'r tueddiadau ym mhob un o'r mesurau deilliannau'n anwadal. Ar ben hyn, mae maint cymharol fach y sampl (39 o ysgolion) a'r ffaith bod ystod data gyfyngedig ar gael ar nodweddion disgyblion (yr hyn sydd yn CDdGD), yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth drin y canlyniadau a gyflwynwyd, gan dalu sylw i'r cyfyngau hyder sydd o gwmpas yr amcangyfrifon. Yng ngoleuni'r materion hyn, ac i roi'r syniad gorau posibl o dueddiadau yn neilliannau ysgolion LILI, cyflwynir pedwar amrywiad o'r model rhagweld, fel a nodir yn Nhabl 4-1.

**Tabl 4-1: Modelau rhagweld**

| Model | Disgrifiad |
|---|---|
| **Model 1** (diamod) | Model syml sy'n cynnwys tuedd amser gan ddefnyddio 5 mlynedd o ddata (2009/10-2013/14). |
| **Model 2** (amodol syml) | Model rhagweld gwaelodlin sy'n cynnwys tuedd amser, gan gynnwys cyrhaeddiad blaenorol pob cohort o ddisgyblion a thrywydd cyrhaeddiad cyfartalog Cymru, gan ddefnyddio 5 mlynedd o ddata (2009/10-2013/14)* |
| **Model 3** (amodol estynedig) | Tebyg i Fodel 2, ond hefyd yn cynnwys rhai nodweddion cohortau disgyblion (gan gynnwys cydbwysedd y rhywiau, cyfran y disgyblion AAA, a chyfran y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig [10% isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC]), gan ddefnyddio 5 mlynedd o ddata (2009/10-2013/14). |
| **Model 4** (amodol estynedig, cyfnod byr) | Fel rhagolygon **Model 3**, ond gan ddefnyddio dim ond 3 mlynedd o ddata (2011/12-2013/14). |

Ffynhonnell: SQW; *ar gyfer deilliannau CA3, y cyfnod hiraf yw 4 mlynedd oherwydd nad oes data CA2 hanesyddol ar gael i'r tîm ar gyfer disgyblion a gwblhaodd CA3 yn 2009/10.

4.4 Cam cyntaf y broses ragweld oedd dewis y model sylfaenol i'w ddefnyddio i gynhyrchu rhagolygon. Cynhaliwyd hyn ar draws dau gyfnod amser, o 2009/2010 hyd 2013/2014 (pum mlynedd o ddata, pedair mlynedd ar gyfer deilliannau CA3[8]) ac o 2011/2012 hyd 2013/2014 (tair mlynedd o ddata). Gan fod rhai deilliannau'n arbennig o anwadal dros amser, defnyddiwyd y dull hwn er mwyn deall pa mor sensitif y byddai'r modelau i'r anwadalrwydd hwn, ac i daflu rhywfaint o oleuni ar ba mor bell i'r dyfodol y dylid rhagweld perfformiad ysgolion, lle bo'n bosibl. Mae gweddill yr adran hon yn dadansoddi ac yn trafod y fanyleb a ffefrir (**Model 3 – estynedig amodol**), oni nodir fel arall. Hwn yw'r model a ffefrir oherwydd hwn, ar y cyfan, oedd y model a oedd yn ffitio orau ar draws holl newidynnau'r deilliannau (gweler Tabl 4-2), sy'n awgrymu bod rhagweld dros gyfnod hwy (ychydig bach) yn well, a hynny yn ôl pob tebyg am ei fod yn well am esmwytho'r anwadalrwydd sy'n gynhenid yn y data. Mae allbynnau llawn y model wedi'u cyflwyno yn yr atodiad technegol (a gyflwynir yn Nhabl A-2 i Dabl A-5).

4.5 I ganolbwyntio ar fanyleb **Model 3**, mae'r canlyniadau'n dangos bod ffit y model wedi amrywio ar draws mesurau'r deilliannau, ag amrediad o 0.129 ar gyfer Saesneg CA4 i 0.643 ar gyfer Mathemateg CA3. Mae'n ddiddorol nodi bod y model sy'n rhagfynegi deilliannau CA3 Saesneg a Mathemateg yn perfformio'n well na'r deilliannau CA4 o ran pa mor dda y mae'r model yn ffitio, sy'n awgrymu bod deilliannau CA2 yn well am ragfynegi deilliannau CA3, nag yw deilliannau CA3 am ragfynegi deilliannau CA4. Efallai nad yw hyn yn

[8] Gan nad oes data CA2 hanesyddol ar gael ar gyfer disgyblion a gwblhaodd CA3 yn 2009/10, uchafswm cyfnod y data yw 2010/11 – 2013/14.

syndod gan fod CA2 a CA3 yn cael eu hasesu mewn modd tebyg (asesiad athrawon) a bod CA3 a CA4 yn cael eu hasesu'n wahanol (mae CA4 yn fesur perfformiad a asesir yn annibynnol).

**Tabl 4-2: Gwerthoedd R sgwâr pob math o fanyleb model a newidyn deilliannau**

| Model | Saesneg CA3 | Saesneg CA4 | Mathemateg CA3 | Mathemateg CA4 | L2C | Presenoldeb | Absenoldeb heb ganiatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Model 1 | 0.653 | 0.018 | 0.619 | 0.155 | 0.190 | 0.484 | 0.022 |
| Model 2 | 0.648 | 0.096 | 0.625 | 0.239 | 0.342 | 0.620 | 0.286 |
| Model 3 | 0.660 | 0.129 | 0.643 | 0.272 | 0.358 | 0.646 | 0.298 |
| Model 4 | 0.607 | 0.195 | 0.629 | 0.227 | 0.397 | 0.635 | 0.170 |

Ffynhonnell: SQW

4.6 Mae'r canlyniadau'n dangos bod perfformiad blaenorol yn arwyddocaol iawn o ran rhagfynegi pob mesur deilliant, ac mae'n gyfrifol am gyfran sylweddol o sut y mae'r model yn ffitio i bob un. Mae hefyd yn glir o'r canlyniadau bod y cyflawniad cyfartalog ledled Cymru yn bwysig, a'i fod i bob diben yn rheolydd dirprwyol (yn enwedig o ran y deilliannau cyrhaeddiad) ar gyfer y duedd gyffredinol o wella perfformiad dros amser.


4.7 O ran y newidynnau esboniadol sydd wedi'u hychwanegu, MALIC ac AAA, mae'r rhain yn ystadegol arwyddocaol ym mhedwar o'r saith model deilliannau. Nid oedd cyfeiriad y dylanwad, fodd bynnag, yn gyson ar draws y deilliannau. Er enghraifft, mae cysylltiad positif rhwng cyfrannau uwch o ddisgyblion MALIC a pherfformiad Saesneg CA3, ond cysylltiad arwyddocaol negatif â Mathemateg CA4 (ac mae'n agos iawn at fod yn gysylltiad arwyddocaol negatif â Saesneg CA4 ar y lefel 10%). Ar gyfer Mathemateg CA3 a Phresenoldeb, ceir cysylltiad positif rhwng cyfrannau uwch o ddisgyblion â statws AAA a'r deilliannau hyn. Yn fwy cyffredinol, mae cynnwys y newidynnau cyd-destunol ychwanegol hyn yn gwneud i'r model ffitio ychydig bach yn well (cynnydd rhwng 1-3% o ran pa mor dda y mae'n ffitio i bob deilliant – gweler Atodiad A).

4.8 Cam nesaf y dadansoddiad yw defnyddio'r modelau sylfaenol hyn fel sail i ragolygon ar gyfer y ddwy flynedd nesaf o ddata (ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014/2015 a 2015/2016). O dan y fanyleb a ffefrir (Model 3), mae'r rhagolygon hyn yn amodol ar lawer o ffactorau. Yn ogystal â'r tueddiadau a gyflwynwyd ym mhob model ar gyfer blynyddoedd y rhagolwg, mae pob rhagfynegiad lefel ysgolion yn seiliedig ar berfformiad blaenorol y cohort (h.y. ar gyfer perfformiad Mathemateg CA4, mae'r model yn rheoli ar

gyfer perfformiad CA3 y cohort dan sylw). Mae hefyd yn seiliedig ar gyfansoddiad y cohort o ran cyfran y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (MALIC, 10% mwyaf difreintiedig) a chyfran y disgyblion ag AAA. Fel y disgrifir yn fanylach yn yr Atodiad, yr offeryn a ddefnyddir i wneud y rhagolygon hyn yw'r gorchymyn "forecast" yn Stata, offeryn rheoli rhagweld cynwysedig. Mae'n bwysig nodi bod rhagolygon yn cael eu gwneud ar lefel ysgolion, ond gan ddefnyddio gwybodaeth o'r set lawn o ysgolion i wneud rhagolygon. At ddibenion y cyflwyniad, rydym yna'n cyfuno'r rhagolygon lefel ysgolion mewn Grwpiau. Nid yw newidynnau'r Grwpiau'n cyfrannu at fanylebau'r model mewn unrhyw ffordd; dim ond sail ydynt i'r gwaith dadansoddi ar ôl yr amcangyfrif.

4.9 Mae Ffigwr 4-1 yn cyflwyno cymhariaeth o ragolygon pob model ar gyfer pob newidyn deilliant. Yn bennaf oll, mae'r modelau'n dangos bod newidiadau bach i'r fanyleb yn gallu newid y rhagolygon yn sylweddol. Fel y disgrifir yn fanylach yn yr atodiad, Model 3 yw'r opsiwn a ffefrir, yn bennaf oherwydd bod y manylebau sylfaenol yn ffitio'n well â'r data.


**Ffigwr 4-1: Cymharu manylebau'r modelau ar gyfer pob mesur deilliant (ffigurau cyfartalog perfformiad 2014/15 a 2015/16)**




Ffynhonnell: SQW

4.10 Fel a gyflwynir yn Ffigwr 4-2, ceir patrymau ar draws y tri Grŵp o ysgolion, o ran y canlyniadau gwirioneddol a'r rhagolygon cywerth. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddeilliannau, mae'r patrymau hyn yn gyson â'i gilydd. Y ddau eithriad yw Saesneg a Mathemateg CA3. Mae'n werth nodi bod y ddau wahaniaeth hyn yn cyfeirio at ddeilliannau CA3, sy'n cynrychioli dau fodel lle mae'r fanyleb sylfaenol yn ffitio orau. Mae hyn yn awgrymu, er bod perthynas gryf rhwng cyrhaeddiad CA3 a chyrhaeddiad blaenorol CA2, bod gan yr ysgol ran bwysig i'w chwarae mewn cyrhaeddiad yn y pen draw.

**Ffigwr 4-2: Cymharu deilliannau a wireddwyd a rhagolygon ar gyfer pob mesur deilliant (ffigurau cyfartalog perfformiad 2014/15 a 2015/16), yn seiliedig ar y fanyleb a ffefrir (Model 3)**




Ffynhonnell: SQW

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r deilliannau, mae perfformiad y Grwpiau'n waeth na'r rhagolygon, â rhai eithriadau (Grŵp C mewn Saesneg a Mathemateg CA4, pob Grŵp mewn Mathemateg CA3). Grŵp C yw'r ysgolion â'r perfformiad gorau o ran canlyniadau a wireddwyd ac a ragwelwyd, a Grŵp A sydd â'r perfformiad gwaethaf. Isod, darperir dadansoddiad manylach o bob deilliant.


### Cyrhaeddiad Saesneg

4.11 Mae Ffigwr 4-3 a Ffigwr 4-4 yn cyflwyno trywydd perfformiad y Grwpiau (mewn llinellau coch) yn erbyn lefel perfformiad cyfartalog Cymru (llinell las). Ar gyfer pob Grŵp, mae'r siart yn cyflwyno'r gwerthoedd a wireddwyd mewn gwirionedd (llinellau solet) ynghyd â gwerthoedd y rhagolwg (llinellau toredig).

4.12 Mae deilliannau cyrhaeddiad Saesneg CA3 wedi'u dangos yn Ffigwr 4-3. Mae'r graff yn dangos mai dim ond ysgolion Grŵp C a wnaeth yn well na'u

rhagolygon, a bod perfformiad Grŵp A yn llawer is na'r gwerthoedd a ragwelwyd. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae modelau rhagweld cyrhaeddiad CA3 yn tueddu i ddargyfeirio'n sylweddol oddi wrth y deilliannau a wireddir.


**Ffigwr 4-3: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd mewn Saesneg CA3 yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**




Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

4.13 Ar gyfer cyrhaeddiad Saesneg CA4, mae Ffigwr 4-4 yn dangos gwahaniaethau clir rhwng y Grwpiau, ac mae'r rhagolygon yn cyd-fynd yn gymharol dda â'r canlyniadau a wireddwyd. Roedd perfformiad ysgolion Grŵp A ac C yn well na'r rhagolwg ac yn cydgyfeirio â chyfartaledd Cymru, ac mae Grŵp B hefyd wedi gwneud cynnydd, ond ychydig llai na lefel y rhagolwg. Mae'n werth nodi hefyd bod y rhagolygon a'r canlyniadau a wireddwyd yn cydymffurfio â'r patrymau disgwyliedig yn y tri grŵp.

**Ffigwr 4-4: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd mewn Saesneg CA4 yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**





Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

**Cyrhaeddiad Mathemateg**

4.14 I droi at gyrhaeddiad Mathemateg CA3, mae Ffigur 4-5 yn cyflwyno darlun cymysg sy'n gyson â'r her sy'n gysylltiedig â rhagolygon yn CA3. Roedd rhagolygon pob grŵp (yn seiliedig ar gyfansoddiad y cohort) yn rhagfynegi gwaethygiad cryf yn y perfformiad a dargyfeirio oddi wrth gyfartaledd Cymru, ond mewn gwirionedd roedd yr ysgolion LILI, ar gyfartaledd, yn dal eu tir.


**Ffigwr 4-5: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd mewn Mathemateg CA3 yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**




Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

4.15 Mae'r rhagolygon ar draws y Grwpiau ysgolion ar gyfer Mathemateg CA4 yn awgrymu y byddent i gyd yn gwella eu perfformiad ac yn cydgyfeirio â chyfartaledd Cymru yn gymharol gyflym. Fel a gyflwynir yn Ffigwr 4-6, er bod y Grwpiau o ysgolion wedi gwella a chydgyfeirio â chyfartaledd Cymru, ni wnaeth dim o'r Grwpiau hynny ar y gyfradd a ragwelwyd.

**Ffigwr 4-6: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd mewn Mathemateg CA4 yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**





Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

**Cyrhaeddiad L2C**

4.16 Fel cyrhaeddiad Saesneg a Mathemateg CA4, mae'r mesur perfformiad ehangach L2C yn dangos cysylltiad rhwng canlyniadau gwirioneddol a chanlyniadau a ragwelwyd yn y drefn ddisgwyliedig ar draws y grwpiau. Fel a gyflwynwyd yn Ffigwr 4-7, nid oedd dim o'r grwpiau, ar gyfartaledd, wedi cyflawni'r lefelau cyrhaeddiad a ragwelwyd erbyn yr ail flwyddyn (er bod ysgolion Grŵp C wedi rhagori ar eu rhagolwg yn y flwyddyn gyntaf).

**Ffigwr 4-7: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd mewn L2C yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**





Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

**Presenoldeb**

4.17 Os ydym yn canolbwyntio ar berfformiad wedi'i wireddu, mae'r data'n dangos bod ysgolion Grŵp C wedi perfformio'n well na Grŵp B dros gyfnod yr ymyriad, a bod Grŵp A wedi cau'r bwlch perfformiad ychydig bach (gweler Ffigwr 4-8). O gymharu â chyfartaledd Cymru, yn yr ysgolion LILI, ar gyfartaledd, gostyngodd cyfraddau presenoldeb yn syth ar ôl rhoi'r ymyriad ar waith, a gwellodd hyn yn y rhan fwyaf ohonynt y flwyddyn ganlynol. O ran y model rhagweld, y rhagfynegiad oedd y byddai'r holl ysgolion yn cynyddu eu cyfraddau presenoldeb ar gyflymder sydd fwy neu lai'n gyson â chyfartaledd Cymru. O gymharu'r plotiau perfformiad a wireddwyd ac a ragwelwyd, dim ond ysgolion Grŵp A a gyrhaeddodd eu lefelau presenoldeb a ragwelwyd erbyn yr 2il flwyddyn. Roeddent, fodd bynnag, yn dal i fod y tu ôl i ysgolion Grŵp B a Grŵp C.

**Ffigwr 4-8: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd o ran presenoldeb yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**





Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata Stats Cymru. Mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon. Sylwer bod yr echelin wedi'i chrebachu rhwng sero ac 80% er mwyn gallu gweld amrywiadau yn y data.

**Absenoldeb heb ganiatâd**

4.18 Fel a ddangosir yn Ffigwr 4-9, mae'r model rhagweld yn rhagfynegi y byddai cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd yn cynyddu yn yr holl ysgolion LILI ac yn dargyfeirio oddi wrth gyfartaledd Cymru. Wrth gymharu hyn â'r perfformiad gwirioneddol ar draws Grwpiau ysgolion, mae'r dystiolaeth yn dangos bod ysgolion Grŵp A wedi mynd yn groes i'r duedd hon a ragfynegwyd. Ar ôl cynnydd mawr mewn cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd ar ôl cyflwyno HYC, gostyngodd y cyfraddau'n is na'r lefel a ragwelwyd. Yn ysgolion Grŵp B ac C, fodd bynnag, roedd cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd yn uwch na'r rhagolwg.

**Ffigwr 4-9: Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelwyd o ran absenoldeb heb ganiatâd yn ôl Grwpiau ysgolion o 2009/10 hyd 2015/2016**




Ffynhonnell: SQW; mae'r llinellau solet yn cynrychioli deilliannau gwirioneddol a'r llinellau toredig yn cynrychioli rhagolygon.

# Atodiad technegol

## Tabl A-1: Rhestr o labeli amrywiol ar gyfer modelau aml-lefel

| Label amrywiol | Disgrifiad |
|---|---|
| gender | Benyw |
| eth | Ddim yn wyn |
| fsmeligible | Cymwys i gael PYDd |
| sen_2 | AAA Gweithredu (a Mwy) |
| sen_3 | AAA Datganiad |
| wimd10 | Byw mewn ardal ddifreintiedig (10% isaf ardaloedd MALIC) |
| sch_gender | % disgyblion yn yr ysgol sy'n fenywod |
| sch_eth | % disgyblion yn yr ysgol sydd ddim yn wyn |
| sch_fsm | % disgyblion yn yr ysgol sy'n gymwys i gael PYDd |
| sch_sen | % disgyblion yn yr ysgol â statws AAA |
| sch_wimd10 | % disgyblion yn yr ysgol sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig |
| sch_land_2 | Iaith yr ysgol (Cymraeg) |
| sch_size | Maint yr ysgol |
| grp_1 | Ysgolion Grŵp A |
| grp_3 | Ysgolion Grŵp C |

## Tabl A-2: Allbynnau model llawn ar gyfer pob mesur deilliant yn y cyfnod 2009/10-2013/14 ar gyfer manyleb y model a ffefrir (Model 1)

| | Saesneg CA3 | Saesneg CA4 | Mathemateg CA3 | Mathemateg CA4 | L2C | Presenoldeb | Absenoldeb heb ganiatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (2010/11-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2010/11-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) |
| **Blwyddyn** | 0.0408*** | 0.00527 | 0.0322*** | 0.0150*** | 0.0157*** | 0.00502*** | -0.000710 |
| | (0.000) | (0.159) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.260) |
| **Cyson** | -81.39*** | -10.05 | -64.06*** | -29.66*** | -31.26*** | -9.195*** | 1.450 |
| | (0.000) | (0.181) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.252) |
| **N** | 227 | 225 | 227 | 225 | 225 | 228 | 228 |
| **R-sgwâr** | 0.653 | 0.018 | 0.619 | 0.155 | 0.190 | 0.484 | 0.022 |

Ffynhonnell: SQW

**Tabl A-3: Allbynnau model llawn ar gyfer pob mesur deilliant yn y cyfnod 2009/10-2013/14 ar gyfer manyleb y model a ffefrir (Model 2)**

| | Saesneg CA3 | Saesneg CA4 | Mathemateg CA3 | Mathemateg CA4 | L2C | Presenoldeb | Absenoldeb heb ganiatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **(2010/11-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2010/11-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** |
| **Perfformiad blaenorol** | 0.387*** | 0.215*** | 0.215*** | 0.297*** | 0.272*** | 0.338*** | 0.525*** |
| | (0.000) | (0.008) | (0.004) | (0.001) | (0.000) | (0.000) | (0.000) |
| **Cyfartaledd Cymru** | 1.369 | 1.183** | 3.699** | 3.375*** | 2.698*** | 1.095*** | 0.108 |
| | (0.463) | (0.019) | (0.026) | (0.005) | (0.000) | (0.000) | (0.941) |
| **Blwyddyn** | -0.00706 | -0.00833 | -0.0722 | -0.0462** | -0.0312*** | -0.00166 | -0.000396 |
| | (0.910) | (0.151) | (0.113) | (0.015) | (0.003) | (0.199) | (0.747) |
| **Cyson** | -0.616 | -0.294 | -1.964* | -1.422** | -0.990*** | -0.395* | 0.0109 |
| | (0.583) | (0.298) | (0.066) | (0.013) | (0.001) | (0.054) | (0.704) |
| **N** | 190 | 225 | 190 | 225 | 225 | 228 | 228 |
| **R-sgwâr** | 0.648 | 0.096 | 0.625 | 0.239 | 0.342 | 0.620 | 0.286 |

Ffynhonnell: SQW

**Tabl A-4: Allbynnau model llawn ar gyfer pob mesur deilliant yn y cyfnod 2009/10-2013/14 ar gyfer manyleb y model a ffefrir (Model 3)**

| | Saesneg CA3 | Saesneg CA4 | Mathemateg CA3 | Mathemateg CA4 | L2C | Presenoldeb | Absenoldeb heb ganiatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (2010/11-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2010/11-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) | (2009/10-2013/14) |
| **Perfformiad blaenorol** | 0.377*** | 0.197** | 0.234*** | 0.313*** | 0.268*** | 0.297*** | 0.511*** |
| | (0.000) | (0.015) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.000) | (0.000) |
| **Cyfartaledd Cymru** | 0.879 | 1.114** | 3.134* | 3.244*** | 2.650*** | 1.129*** | 0.284 |
| | (0.667) | (0.027) | (0.061) | (0.005) | (0.000) | (0.000) | (0.849) |
| **Blwyddyn** | 0.00573 | -0.00320 | -0.0619 | -0.0444** | -0.0298*** | -0.00227 | -0.000482 |
| | (0.933) | (0.683) | (0.178) | (0.016) | (0.008) | (0.110) | (0.698) |
| **Rhyw** | 0.0969 | -0.0308 | 0.339 | 0.601 | 0.0905 | 0.105** | -0.0298 |
| | (0.850) | (0.948) | (0.388) | (0.153) | (0.826) | (0.032) | (0.424) |
| **MALIC** | 0.842* | -1.051 | 0.204 | -0.803* | -0.682 | -0.0806 | 0.0721 |
| | (0.058) | (0.100) | (0.628) | (0.078) | (0.132) | (0.103) | (0.244) |
| **AAA** | 0.157 | -0.136 | 0.457* | 0.223 | 0.115 | 0.0753*** | 0.00338 |
| | (0.590) | (0.689) | (0.033) | (0.436) | (0.709) | (0.008) | (0.892) |
| **Cyson** | -0.577 | 0.0233 | -1.906* | -1.522** | -0.884** | -0.436** | 0.00582 |
| | (0.652) | (0.955) | (0.080) | (0.019) | (0.025) | (0.049) | (0.888) |
| **N** | 190 | 225 | 190 | 225 | 225 | 228 | 228 |
| **R-sgwâr** | 0.660 | 0.129 | 0.643 | 0.272 | 0.358 | 0.646 | 0.298 |

Ffynhonnell: SQW

**Tabl A-5: Allbynnau model llawn ar gyfer pob mesur deilliant yn y cyfnod 20011/13-2013/14 ar gyfer manyleb y model a ffefrir (Model 4)**

| | Saesneg CA3 | Saesneg CA4 | Mathemateg CA3 | Mathemateg CA4 | L2C | Presenoldeb | Absenoldeb heb ganiatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **(2010/11-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2010/11-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** | **(2009/10-2013/14)** |
| **Perfformiad blaenorol** | 0.272** | 0.252** | 0.122 | 0.260** | 0.215** | 0.0837 | 0.306*** |
| | (0.011) | (0.020) | (0.192) | (0.019) | (0.011) | (0.287) | (0.008) |
| **Cyfartaledd Cymru** | 0.942 | 0.636 | 1.106 | -3.911 | 1.706* | 0.907* | 1.452 |
| | (0.728) | (0.292) | (0.632) | (0.235) | (0.069) | (0.074) | (0.443) |
| **Blwyddyn** | 0.00609 | 0.00632 | -0.000717 | 0.0847 | -0.00469 | 0.000206 | -0.000170 |
| | (0.946) | (0.626) | (0.991) | (0.147) | (0.797) | (0.957) | (0.900) |
| **Rhyw** | -0.0577 | 1.569* | 0.352 | 0.468 | 0.749 | 0.140 | -0.0658 |
| | (0.919) | (0.089) | (0.491) | (0.487) | (0.248) | (0.119) | (0.366) |
| **MALIC** | 0.884* | -0.711 | 0.245 | -0.682 | -0.707 | -0.00608 | 0.0249 |
| | (0.050) | (0.459) | (0.604) | (0.402) | (0.286) | (0.946) | (0.781) |
| **AAA** | 0.155 | -0.440 | 0.563* | 0.265 | -0.0734 | 0.0758 | 0.00459 |
| | (0.621) | (0.471) | (0.055) | (0.558) | (0.880) | (0.171) | (0.912) |
| **Cyson** | -0.484 | -0.534 | -0.587 | 1.937 | -0.782 | -0.0875 | 0.0203 |
| | (0.767) | (0.382) | (0.686) | (0.234) | (0.181) | (0.848) | (0.685) |
| **N** | 152 | 151 | 152 | 151 | 151 | 152 | 152 |
| **R-sgwâr** | 0.607 | 0.195 | 0.629 | 0.227 | 0.397 | 0.635 | 0.170 |

Ffynhonnell: SQW